

PRICHARD (neu PRISIART), JOHN WILLIAM (1749 - 1829), a'i galwai ei hunan hefyd yn ' John Williams,' llenor

Enw: John William Prichard

Dyddiad geni: 1749

Dyddiad marw: 1829

Priod: Gwen Prichard (née Owen)

Priod: Catherine Prichard (née Roberts)

Plentyn: Elizabeth Williams (née Prichard)

Rhiant: William Prichard

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: llenor

Maes gweithgaredd: Celf a Phensaernïaeth; Hanes a Diwylliant; Cyfraith; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Meddygaeth; Natur ac Amaethyddiaeth

Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1749 (diwedd Mehefin, gellid tybied ar lythyr ganddo) ar fferm Bodlew, Llanddaniel, Môn yn bumed plentyn (y cyntaf o'r ail briodas) i [William Prichard](#), ychydig cyn i hwnnw symud i Glwchdernog. Myn rhai na chafodd nemor addysg; deil eraill iddo fynd i ysgol yn Lerpwl, a haws yw credu hynny o sylwi ar ei ysgrifen gain a chylch ei wybodaeth gyffredinol. Bu'n briod ddwywaith: (1) yn 1775, â Catherine ferch Dafydd Roberts o Landyfyrdog - bu hi farw yn 1779 gan adael un ferch; (2) yn 1785 â Gwen ferch William Owen o'r Crafnant yn Llanfair Harlech (o'r Fron-olau ym Mhenmorfa wedyn) - bu hithau farw yn 1797 gan adael pump o blant; yr i J. W. Prichard, drwy Elizabeth un o'i ferched o'r ail briodas, oedd Richard Owen Williams (1819 - 1849), arno ef gweler *Enw. F.*, a [H. Lewis](#), *Canmlwyddiant Tabernacl Bangor*, 87-9; yres oedd Frances a briododd ag [Evan Williams](#) 'y limner', a gor yr oedd [William Prichard Williams](#). Nid Annibynnwr, fel ei dad enwog, oedd J. W. Prichard, eithr Methodist selog. Bu'n ffermio Boteiniol ym mhlwyf Llantrisant, ond wedi marw ei wraig gyntaf symudodd i Blas-y-brain yn Llanbedrgeoch, y tyddyn y cysylltir ei enw ag ef gan bawb; ychydig cyn diwedd ei oes, symudodd i'r Chwaen-wen Uchaf yn Llantrisant. Bu farw 5 Mawrth 1829, a chladdwyd yn Llangwyllog. Yr oedd yn ddyn eithriadol amryddawn; ffermwr, mesurwr tir ac almanaciwr, meddyg gwlad, twrnai gwlad, llenor a phrydydd a hynafiaethydd, tynnwr lluniau a mapiau, cerfiwr. Yr oedd ar delerau da ag uchelwyr y sir, yn enwedig a [Paul Panton](#) o'r Plas Gwyn. Nid ymddengys iddo gyhoeddi dim heblaw *Hanes Pibau'r Bugeiliaid*, ond y mae rhyw gymaint o'i brydyddiaeth ar chwâl mewn cyfnodolion a hefyd mewn llawysgrifau. Y mae swm gweddol helaeth o'i lawysgrifau yn llyfrgell Coleg y Gogledd (Bangor MSS. 47, 538, 1249, 2123-32, 3765-7, 5338); ambell ddyddlyfr, cyfrifon, cynghorion meddygol, nodiadau ar hanes ei deulu, copïau o lythyrau ac o brydyddiaeth. etc. Casglai hen lenyddiaeth - y mae ym Mangor amryw o lythyrau [Lewis](#) a [William Morris](#) a ddaeth i'w feddiant rywsut (sgrifennodd nodiadau ar [Lewis Morris](#), llawysgrif 81 yng Nghaerdydd), ac yr oedd ganddo lythyrau gan [Oronwy Owen](#). Yr oedd ef ei hunan yn ohebydd prysur â chylch eang o lenorion: '[Gwallter Mechain](#)' (N.L.W. 1808 rhif 6), [William Owen Pughe](#), [Richard Llwyd](#) (awdur *Beaumaris Bay*), '[Twm o'r Nant](#),' '[Dewi Wyn](#),' '[Robert ap Gwilym Ddu](#) (a oedd yn gâr iddo), [Robert Roberts](#) yr almanaciwr o Gaergybi. Ar y llaw arall, drwg oedd hi rhyngddo a '[Dafydd Ddu Eryri](#),' ac yr oedd yn ffeiddio '[Iolo Morganwg](#)' - ar '[Iolyn](#)' y bwriai'r cwbl o'r bai am 'ddrysu' [Pughe](#). Mewn byd gwahanol, llythyrai â [Thomas Charles](#) o'r Bala, a'i lythyr maith at [Robert Jones](#), Rhoslan, ynghylch yr erlid a fu ar ei dad [William Prichard](#), yw sail yr ymdriniaeth â hynny yn *Drych yr Amseroedd*. Argraffwyd cryn nifer o'i lythyrau yn *Y Traethodydd*, 1883 a 1884 (gweler hefyd *B.B.C.S.*, ix, x). Y mae cywyddau iddo gan '[Robert ap Gwilym Ddu](#)' a '[Dewi Wyn](#)' yn y cyfrolau o'u gweithiau.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 9, 154, 246 - ond nid yw trefn na dyddiadau plant Prichard (ac aelodau eraill o'r teulu) yno'n gwbl gyson â thystiolaeth llawysgrif Bangor a'r manylion a ddododd Prichard yn ei Feibl teuluaidd

manion bywgraffyddol yn llawysgrif Bangor, yn y llythyrau argraffedig, ac yn *Y Traethodydd*, 1883, 141-3, a 1884, 14-8
NLW MSS, 1807, 4452

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q28361361](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

